DINESYDD
MEDI
PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH
1981
RHIF 80

# PEIDIWCH ANGHOFIO'CH CYMRAEG

Bid siwr, un o nosweithiau mawr y flwyddyn i ddinasyddion Cymraeg Caerdydd fu cyngerdd ffarwel Ysgol Gymraeg Bryntaf yn Neuadd y Ddinas ddechrau'r haf.

Mewn ffordd, roedd hwn yn gyngerdd symbolaidd. Dangosai dymor y medi; medi cynhaeaf blynyddoedd o lafurio caled. Mor hyfryd oedd gweld yr hen ddisgyblion a oedd "wedi dod ymlaen yn y byd" yn dangos ychydig o bedigri'r had.

Gwelir y pedigrî mewn ffyrdd eraill, hefyd, wrth gwrs.

Bydd y Medi hwn yn fis i'w gofio yn y ddinas, y mis yr ymganghennodd yr ysgol gynradd Gymraeg yn gyflawn gan esgor ar nifer o ysgolion cyffrous, newydd. Ymuna'r Dinesydd gyda sawl llais arall i ddymuno pob lwc a bendith i bob un o'r ysgolion hynny, heb enwi'r un ohonyn nhw.

Ond at beth ydw i'n dod?

Dim ond i ofyn cwestiwn. I ba raddau, tybed, y mae dinasyddion Caerdydd yn gallu elwa ar ffrwyth yr had yma? Neu, o'i roi mewn ffordd arall, i ba raddau, tybed, y mae'r ymlyniad wrth y bywyd Cymraeg a pethau gorau'r genedl yn parhau o ddyddiau ysgol?

Pam gofyn y fath gwestiwn?

Digwyddai'r Dinesydd fod (ar wahoddiad) yng nghyfarfod blynyddol Aelwyd yr Urdd, Cantwn, a gynhaliwyd toc wedi'r cyngerdd y soniais amdano. Y Bonwr John Albert Evans (Llysfaen ac America) oedd yn y gadair ac roedd yn amlwg oddi wrth ei eiriau doeth a dethol nad oedd yn hapus wrth wynebu'r dyfodol. Ei bryder oedd na fedrai'r Aelwyd am ryw reswm neu'i gilydd, ddenu'r ifanc i'w gweithgareddau. Gwahoddodd drafodaeth ac yn y sylwadau a gafwyd daeth sawl stori ddigon trist i'r golwg.

Dywedodd un gŵr y gellid disgwyl i lwyddiant yr ysgolion Cymraeg gael ei adlewyrchu yng ngweithgareddau'r Urdd, y byddai'r ifanc yn tyrru yno - ar nos Wener, er enghraifft.

"Y maen nhw'n tyrru yno ar nos Wener," meddai llais arall. "Mae'r rhieni'n dod â'u plant yn eu ceir tua saith o'r gloch ac yn eu gollwng nhw wrth y drws cyn mynd adre. Mae'r rhieni, chwarae teg iddyn nhw, wrth y drws i'w codi i fynd adre toc wedi naw, ac mae'r plant yno'n brydlon yn disgwyl amdanyn nhw."

Beth yw'r broblem, felly?

Yn fyr, y cyfnod yma rhwng saith a naw. Buan y diflanna'r plant (neu'r bobl ifanc) o'r Aelwyd a mynd i fannau eraill. I ble, doedd neb yn rhyw siwr iawn.

Beth am y gweithgareddau?

Bu adeg pan oedd Côr Aelwyd Caerdydd o dan arweinyddiaeth Alun Guy yn gôr i'w ofni ar lwyfannau'r wlad. Enillydd yn y Genedlaethol a denwr tyrfaoedd cyngherddau.

Mae côr yn Yr Aelwyd o hyd ond go brin y gellir ei alw'n gôr Yr Aelwyd mwyach.

"Am ryw reswm, mae'n amhosib denu'r ifanc i'r côr fel cynt. Dydyn nhw ddim eisiau canu. Mae'r aelodau'n mynd yn hen."

Beth am y parti dawnsio gwerin? Mae hwn, eto, wedi gwneud enw iddo'i hun ledled y wlad. Mae ei waith yn dal i fod o safon uchel.

"Rŷn ni'n ymarfer yn gyson yn Yr Aelwyd ond mae'n anodd cael y to ifanc i ymddiddori a dod i'r ymarferiadau aml. Mae'r aelodau'n mynd yn hen."

Y cwmni drama?

"Wel, mae gyda ni gwmni sy'n ymarfer yn Yr Aelwyd. Criw bychan ydyn ni ond mae croeso i bawb. Wrth gwrs, fedrwn ni ddim cystadlu yn adran ddrama Eisteddfod Yr Urdd."

Doedd dim angen gofyn pam. Yr aelodau'n mynd yn hen.

Cafwyd gwybod gan yr Arweinydd, Alan Gwynant, fod rhaglen gyfoethog, fel arfer, wedi cael ei threfnu ar gyfer y bobl ifanc, a hynny dros sawl noson yr wythnos.

Oedd ganddo ef broblem?

Oedd. Diffyg rhai'n dod i weithredu'r rhaglen. Diffyg arweinyddion. Prinder rhai a oedd yn barod i gymryd at weithgareddau'r ifanc, yn ddisgos a gemau ac ati. Anodd cael digon o bobl i redeg y gornel goffi, er enghraifft. Anodd cael rhai i ddod yn gyson i'r sesiynau nos Wener.

(i dud. 12)

# HELYNT Y RYGBI AR Y SUL YN PARHAU

Un hyfforddwr yn ddigon o ddyn i dynnu'n ôl ei gefnogaeth i chwarae rygbi ar y Sul.

Llawer o'r rhieni'n ail-feddwl.

Y capeli a'r eglwysi yn synnu at eofndra rhai dinasyddion yn anwybyddu'r alwad oesol i ADDOLI.

OND AR WAETHAF HYN OLL, dywed un trefnydd yn haerllug:

"Mae deugain o enwau gennym a bwriadwn chwarae mlâ'n".

Y gobaith mawr yn awr yw bydd mwy eto o'r rhieni yn penderfynnu mai dydd Sadwrn neu yn ystod oriau'r ysgol yw'r amser gorau i hyfforddi'r plant yn y byd rygbi ac na fydd unrhyw beth arall yn mynd a bryd ein plant ar fore Sul ond mynd i'r Oedfa i ddathlu diwrnod atgyfodiad Iesu Grist ac i roi diolch. Os nad oes hyfforddwyr ar gael i wneud y gwaith o hyfforddi ar ddydd Sadwrn , gwell iddyn nhw ac i'r plant adael y chwarae yn y fan a'r lle.

Siom yn y bwriad o hyfforddi ar y Sul oedd byrdwn erthygl flaen y Dinesydd ond yn y papurau cenedlaethol a'r llythyru a fu led-led y ddinas codwyd dadleuon perthnasol eraill.

Daliwn ni serch hynny i ddweud mai rygbi AR Y SUL yw prif faes ein dadleuon. Mae gweithred Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn ein hannog i edrych ar ein gwir anghenion ac i ail-ddarganfod y Sul a chofio

1. Dathlu Atgyfodiad yr ydym a'r dathliad yw'r peth cyntaf a phwysicaf ar y dydd hwnnw. Mae popeth arall yn tynnu rhywbeth o'r dathliad hwnnw.

2. Mae ar Gristnogion heddiw fel ymhob oes angen patrwm, disgyblaeth i'w bywyd ysbrydol ac mae'r Sul yn allweddol i'r patrwm hwnnw. Pan chwelir y patrwm, mae'r gafael yn llacio.

3. Roedd y 'Sabbath' yn bwysig ym mywyd Iesu ei hun; roedd angen 'Sabbath' arno fe. Nid o angenrheidrwydd i orffwys ond i ymlonyddu fel rhan o ddathliad y creu.

4. Mae'r traddodiad Cymreig Cristnogol wedi gweld y Sul fel rhywbeth holl-bwysig - er fod rhai wedi ei wneud yn faich ac nid yn wledd.

5. Yn yr argyfwng mawr - y Gaethglud - cadw'r Sabbath a gadwodd enaid y genedl Iddewig. Dyna gyfraniad mawr y Phariseaid ym mywyd y genedl a phan rŷm ni heddiw fel Cymry ar ganol argyfwng mawr y genedl Gymreig mae'n deg i ofyn a allwn fforddio ollwng dros gof yr hyn a'n gwnaeth yn genedl.

............

"LLE NAD OES GWELEDIGAETH PALLA Y BOBL"
Yma yng Nghaerdydd mae'n amlwg bod gweledigaeth o hyd yn y capeli.

Dyma ymateb y capeli a'r eglwysi.

Y Sul cyntaf ar ôl i'r plant dderbyn llythyr o wahoddiad yn yr ysgol, cyhoeddodd Ysgrifennydd Eglwys Ebeneser, Mr. Leslie Jones, yn ddifloesgni na ddylai rhieni'r capel ganiatâu chwarae rygbi ar y Sul i'w plant ac na ddisgwylid gweld un o blant y capel hwnnw'n bresennol yn yr hyfforddi.

Roedd Gweinidog a Blaenoriaid Heol y Crwys o unfarn os oedd aelodau'r Crwys wedi bod yn cefnogi Clwb Rygbi Cymry Caerdydd, y dylent yn wyneb y penderfyniad hwn dynnu'u cefnogaeth yn ariannol ac unrhyw ffordd arall yn ôl. Pregethwyd yn herfeiddiol gan Mr. Cynwil Williams ar y testun uchod ac eglurwyd natur y Sul i'r gynulleidfa. Ysgrifennodd hefyd i'r Cymro i ddangos ei siom.

Ymatebodd deaconiaid y Tabernacl yn CHWYRN i fygythiad Clwb Rygbi Cymry Caerdydd o'r gelyn mewnol yn lladd ein traddodiadau gorau. Os nad oedd hi'n gyfleus i aelodau Clwb Rygbi Cymry Caerdydd i hyfforddi ar y Sadwrn gan eu bod yn ennill eu cyflog bras ar y diwrnod hwnnw neu'n hybu gweithgareddau'r Clwb ac yn hyfforddi plant hŷn, dylid anghofio am y peth a'i adael yn y fan a'r lle. Mewn dyddiau pan mae'n ddigon anodd troi meddyliau plant at yr hyn sy wir yn bwysig, fe fyddai o help mawr i'r eglwysi pe na byddai Cymry Cymraeg yn llesteirio'r gwaith. "Hyd yma yr ei" oedd eu teimlad hwy.

Roedd y Ficer yn teimlo'n gryf mai bore dydd Sul oedd yr unig adeg yn yr Eglwys yr oedd disgwyl i'r plant ymddangos gan nad oedd Ysgol Sul yn y prynhawn ganddyn nhw ac y byddai'r rygbi yn torri ar draws eu haddoliad nhw.

Teg yw nodi bod yr Annibynwyr wedi derbyn yr un patrwm ac roedd Mr. Illtyd Lewis, ar ran Minny St. yn gresynu bod rhieni'n cael eu gosod yn y fath ddilema ar ôl derbyn y llythyr o ddwylo'u plant.

Ni allwn i Gristnogion fod yn dawel yn wyneb bygythiadau Clwb Rygbi Cymry Caerdydd i danseilio'r Sul.

HYFFORDDI RYGBI I BLANT DAN 11 OED O GWBL.

Mynnai Alun Wyn Bevan, Prifathro Ysgol Gymraeg Glyn Nedd a Dyfarnwr cyson ar y meysydd rygbi,yn y Faner, Gorff. 31, fod "yna rai sy'n creu math o gancr yn eu plant yn gorfforol ac yn feddyliol trwy or-hyfforddi." Dywed fod yn "rhaid cydnabod fod datblygiad corfforol yn ffactor holl-bwysig ac mai annoeth yw gwneud Barry John neu Gareth Edwards allan o grwt wyth mlwydd oed".

Yn hyn o beth ac yn yr agwedd foesol o chwarae rygbi ar y Sul, roedd yn cytuno'n llwyr â Mrs. Mary William yn y Faner, 24.7.81. Roedd hi'n synnu'n ychwanegol at Glwb Rygbi Cymry Caerdydd yn tynnu oddi wrth waith ardderchog tîm 'Yr Awr Fawr' BBC ac hefyd yn rhagweld bod gwrthod rhoi seiliau gwerthoedd Cristnogol i fywyd ein plant yn mynd i ganiatâu y golygfeydd erchyll a welwyd ar y strydoedd yn Lloegr fis Gorffennaf.

---

PLAID CYMRU (GOGLEDD ORLLEWIN CAERDYDD)

Cynhelir cyfarfod am 7.30 p.m., nos Iau, Medi'r 10fed, yn NEUADD GYMDEITHASOL YSTUM TÂF, Y Parêd, Yr Eglwysnewydd.

Gŵr Gwâdd: Cynghorwr Chris Franks (Cyngor De Morgannwg)

---

FFAIR NADOLIG PLAID CYMRU,
NEUADD Y DDINAS,
TACHWEDD 14

......

FFAIR HYDREF HEOL Y CRWYS,
YSGOL TŶ CELYN,
HYDREF 10

---

# AR DAF YR IAITH A DYFODD



Siân Hopkins

Mae GWLEDD o ganu ar record twf Ysgolion Cymraeg yn y Ddinas. Mae cymdeithas gyfan wedi cydweithio i roi blas ar asbri bywyd a diwylliant mewn Ysgol Gymraeg. Rwy'n siŵr y byddwn i gyd yn ymfalchio yn y doniau o ardal Caerdydd a geir ar y record hon. Mae lleisiau y lluniau uchod a llawer iawn mwy i'w clywed - pob ysgol Gymraeg yn yr ardal yn cael eu cynrychioli. Pa eisiau Petula Clarke a 'Sound of Music' os gellwch glywed Sian Hopkins a phlant Bryntaf ar record eich ardal chi. Archebwch nawr oddi wrth Iolo Walters, 44 Rhiwbeina Hill, Rhiwbeina ac anfon eich siec ato am £3.90 i sicrhau eich record. Dylid cyfeirio'r siec at Pwyllgor Cyn-ddisgyblion Ysgol Gymraeg Caerdydd. Diolch o galon i'r prifathrawon ac i'r athrawon ac i'r plant eu hunan led-led y ddinas. Fe fethon ni â chysylltu â chi cyn diwedd y tymor ond mae pwyllgor y Cyn-ddisgyblion am estyn eu diolchiadau mwyaf cywir i chi i gyd ac i Gwmni Recordio Sain am helpu i gynhyrchu record hanesyddol bwysig yn y ddinas.



Ann Morgan

Roedd Gorffennaf y 14 yn noson arbennig o atgofion melys i fyrdd o rieni'r ddinas a ddaeth ynghyd i gyngerdd nodedig yn Neuadd y Ddinas. Thema'r cyngerdd oedd 'Ar Daf - Yr Iaith a Dyfodd' a'r amcan oedd olrhain twf Ysgol Gynradd Bryntaf.

Y pwyllgor rhieni fu'n gyfrifol am y trefnu a chymerwyd rhan gan gyd-ddisgyblion a rhieni. Llywiwyd y gweithgareddau gan Elinor Wyn.

Cafwydd areithiau a chyfarchion pwrpasol gan Mrs. Siwsi Evans, Mrs. Lorna Roberts a Mr. Ifan Wyn Williams, prifathro Ysgol Gyfun Rhydfelen.

Cafwyd eitemau gan Iwan Guy, Ann Morgan, Siân Hopkins, Parti Dawns Aelwyd Caerdydd, Iona Jones a Chôr Telyn Ysgol Glantaf.

Cyflwynwyd anrheg i'r prifathro Mr. Tom Evans a thorch o flodau i'r gyn-brifathrawes, Mrs. Enid Jones Davies. Roedd y noson yn ddathliad cymwys o dwf addysg Gymraeg yng Nghaerdydd dros gyfnod o 30 mlynedd a mwy.

Trist cofnodi nad oes Ysgol Bryntaf mwyach ond llawenydd yw cyhoeddi fod pedair ysgol arall wedi eu sefydlu yn ei lle.

# HEN CÔR

Bydd Côr Aelwyd Caerdydd yn cychwyn tymor newydd ym mis Medi ar ei newydd wedd. Penderfynwyd newid enw'r Côr a'i alw'n bellach yn Gôr Canolfan Caerdydd. Y rheswm pennaf am y newid hwn yw fod nifer o aelodau'r Côr erbyn hyn dros 25 oed, sef oedran cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

Byddwn felly yn peidio â bod yn Gôr sydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, ac wrth newid enw'r Côr yn ehangu oedran y Côr hefyd (o fewn rheswm!). Teimlwn fod lle i Gôr o Gymry ifanc yng Nghaerdydd, yn ddisgyblion ysgol, yn fyfyrwyr, ac yn Gymry sy'n gweithio yn y ddinas. Hoffwn estyn gwahoddiad cynnes i aelodau newydd ymuno â'r Côr ac hefyd i groesawu cyn-aelodau yn ôl.

Arweinydd newydd y Côr yw Islwyn Evans, athro cerdd ifanc sy'n dysgu yng Ngwent. Mae ef yn olynydd i Euros Rhys Evans a fu'n weithgar iawn fel arweinydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Gobeithiwn barhau i gynnal un gyngerdd ffurfiol yn ystod y flwyddyn, yn ogystal a chyngherddau llai, canu mewn eisteddfodau a nosweithiau llawen. Fel y gŵyr aelodau presennol y Côr mae nósweithiau cymdeithasol hefyd yn rhan bwysig o'n rhaglen, a gobeithiwn drefnu taith penwythnos i gynnal un neu ddau o gyngherddau i ryw ran o Gymru.

Yn ogystal ag arwain Côr y Ganolfan, bydd Islwyn hefyd yn hyfforddi rhai o bobl ifanc yr Aelwyd i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, a bydd croeso i aelodau'r Côr sydd o dan 25 oed i ymuno â nhw.

Bydd ymarfer cyntaf y Côr yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, ar nos Iau, y 10fed o Fedi am 7.30 o'r gloch. Byddwn yn ymarfer bob wythnos ar nos Iau, a hoffwn estyn gwahoddiad cynnes i aelodau newydd i ymuno â'r Côr.

GOHIRIO

Yn wyneb y Rhyfel yn Israel rhaid oedd gohirio'r daith a drefnwyd mor fanwl i'r wlad honno gan Nans a'r Gweinidog ac aelodau ardal Penylan o Heol y Crwys. Maent yn gobeithio cael mynd yno yn ystod y flwyddyn nesaf yn lle hynny.

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Hydref at Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Waun, Caerdydd (Tel: 753625) erbyn Medi 18fed.

# CERWI'R CYMRIC



Tîm Cyntaf Clwb Peldroed Y Cymric. Beth am lun o'r Ail Dîm erbyn y rhifyn nesaf??? Bydd y Clwb yn ymarfer bob nos Fawrth yn Ysgol Uwchradd Radur a chroeso i unrhyw un i ymuno â nhw i gadw'n heini neu i chwarae peldroed!

## LLONGYFARCHION

Dymuniadau da i Gareth Wood a'i briod sy'n mynd i'r America, Gareth i astudio dulliau cynhyrchu teledu a'i wraig yn dilyn Cwrs ar Farddoniaeth Modern Americanaidd.

Dymuniadau gorau hefyd i Mrs. Gwen Jones, Nia, Heledd ac Aled, sydd hefyd wedi mynd i'r America am flwyddyn.

Mae merch fach arall wedi ei geni ar Awst yr 21l yn Heol Dwyrain y Llyn, yn 110 y tro hwn. Elen Louise Victoria yw ei henw hi. "Llond ceg o enw ynte", medd ei mam Gwen McFadden sy'n hannu o Benrhyndeudraeth ond sy wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ers tro byd bellach. Mae wedi bod yn gweithio yn y BBC a fel mae'i henw'n awgrymu yn briod ag Albanwr sy wedi bod yn forwr ond sy'n awr yn gweithio mewn pyllau olew led-led y byd. On'does pobl ddiddorol yn byw yng Nghaerdydd cyfoes? Mae un crwtyn bach arall ganddyn nhw. Rhodri yw ei enw brenhinol ef ac mae'n ymfalchio yn y trysor o'i chwaer fach.

Llongyfarchiadau i Gareth a Iona Lloyd Williams ar enedigaeth eu merch fach, chwaer i Huw a Siwan.

Llongyfarchiadau i Bethan a Glan Roberts ar ddathlu'u priodas arian yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Mr. Wyn Lotwick ar ei ddyweddiad ddiwedd mis Gorffennaf ym Mryste a Miss Helen Morris, Winterbourne, Avon.

Ddiwedd mis Gorffennaf daeth bachgen bach, Steffan Pedr, i'r byd, plentyn cyntaf i Berni a Val Simpson, Eveswell Rd., Y Tyllgoed. Athrawes Gymraeg a Hanes yn Ysgol Gyfun Stanwell, Penarth oedd Val a gweithio gyda'r Western Mail mae Bernie sy'n dod o Gaerdydd a Val yn dod o Gaerfyrddin. Pob dymuniad da iddynt wrth sefydlu'u teulu bach yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau i Mary a Richard Skym, 96 Heath Park Ave., ar enedigaeth Dafydd Gerallt, brawd bach i John Rhys.

SALEM, Treganna. Bore Sul, Gorffennaf 5ed, 1981, bedyddiwyd Carys Hedd, merch fach Mr. a Mrs. Paschales, Pontcanna. Gweinyddwyd y Sacrament gan y Gweinidog, y Parch D. Haydn Thomas.

Llongyfarchiadau calonog i Miss Marion Webb o Benarth ar ennill swydd dysgu'r Gymraeg yn Ysgol Brynhyfryd, Y Barri. Dysgwraig yw Marion a'r teulu ers blynyddoedd bellach wedi bod yn byw ym Mhenarth. Dechreuodd ymddiddori yn y Gymraeg yn Adran Gymraeg Mr. Alwyn Prosser yn Ysgol Gyfun Stanwell ac wedyn graddiodd yn y Gymraeg gan ennill gradd anrhydedd yng Ngholeg y Brifysgol yng Nghaerdydd. Pob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd sy mor agos i gartref ei mebyd.

Llongyfarchiadau i Meirwen Ruddock ar lwyddo yn arholiad y piano Gradd 4 a hithau ond yn ddeng mlwydd oed. Mae hi'n cael gwersi gyda Mrs. Guy yn Ysgol Gerdd y Crystals. Hi yw merch Gilbert a Rhian Ruddock a gwyddom fod cerddoriaeth yn rhan annatod o fywyd y teulu. Pob rhwydd hynt iddi ddal ati i ddatblygu'i dawn cynhenid.

Mae'n siwr y bydd diddordeb mawr gan ddarllenwyr Y Dinesydd wybod beth yw hynt colofnydd cyson o Ysbyty'r Mynydd Bychan, Dr. David Morris. Gwelsom ei wyneb lawer tro ar y teledu yn gwisgo'r wisg las erbyn hyn yn Seremoni'r Cadeirio. Llongyfarchiadau calonnog iddo ar hyn ac ar gael dechrau swydd newydd yn Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan fis Medi - blwyddyn gyda'r henoed.

Rym yn falch iawn cael cofnodi hefyd na fydd rhaid i Miss Eirian Davies Jones sy'n dod o Lanerchymedd, Sir Fôn, ein gadael ni am Loegr fel yr ofnem. Mae hi wedi derbyn swydd ymchwil yn yr Ysgol Feddygol yma yng Nghaerdydd. Bu'r ddau uchod yn ffyddlon iawn yn Nosbarth Myfyrwyr, Heol y Crwys. Pob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.

TRI AELOD Y CRWYS YN DYCHWELYD O BELLTEROEDD DAEAR I GAERDYDD.

Do, daeth Tanwen Jarman nôl o Japan; dychwelodd Ann Rowlands o Saudi Arabia a braf iawn oedd gwybod i Alun Preece fod yn ôl yn ei gynefin o Awstralia. Roedd eu teuluoedd a'u holl ffrindiau yn falch dros ben i'w gweld.


**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST BWYD A GWIN DA**

TRWYDDED PRESWYL


## AELWYD YR URDD

Ar nos Wener y 18fed o Fedi bydd Yr Aelwyd yn ail-agor ar gyfer Tymor y Nadolig. Bydd Bwffe a Disgo wedi ei drefnu i ddechrau tua 7.30 p.m. Dyma'r noson gyntaf ac mae nifer o weithgareddau amrywiol eraill wedi eu trefnu -

Medi 25: 'Teisennau Mair', ffil[m]
Hydref 2: Noson Siandifang
Hydref 9: Disgo
Hydref 15: i'w threfnu gan yr aelodau
Hydref 23: Noson nofio ym mhwll y Ddraenen Wen
Hydref 30: Noson Calan Gaea'
ac felly ymlaen tan y Nadolig.

Mae croeso i unrhyw Gymro neu Gymraes dros 15 oed i ymuno i fwynhau noson gymdeithasol Gymreig a Chymraeg. Gorau po fwyaf ohonom a ddaw.

CAPEL EBENESER, HEOL SIARL

NOS WENER, 25 MEDI, 7.30 p.m.

'AMBELL I GÂN - CANU GWERIN'

gyda: Y Diliau, Côr y Swyddfa Gymreig (Ar. Alun Davies), Côr Plant Ysgol Melin Gruffydd, Dafydd Idris, Lowri Ffrancon (Telyn)
CÔR CERDD DANT MERCHED Y GARTH (Buddugwyr Eisteddfod Maldwyn)

Cyflwynydd y noson: Dr. Meredydd Evans.

Pris y tocyn: £1. Yr elw at yr Ŵyl Gerdd Dant.

# Y CALENDR

FFAIR NADOLIG GLANTAF, 5 Rhagfyr, 1981

FFAIR HAF GLANTAF 26 6 82

# SIANEL CYMRU 4

gan

OWEN EDWARDS

Rwyf newydd ddychwelyd wedi un o'r Eisteddfodau mwyaf hynaws, hapus a threfnus y bum ynddi erioed a mawr yw diolch pawb ohonom i'r cyfeillion a baratodd yr arlwy ym Mhrifwyl Maldwyn a'i chyffiniau. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd fuodd yna ddim protest na chŵyn drwy'r wythnos am deledu Cymraeg ac, o gofio mor annifyr oedd hi ddeuddeg mis yn ôl, mae hynny ynddo'i hun yn wyrth. Yn Eisteddfod Dyffryn Lliw roedd yna gwmwl o anobaith yn ein llethu a phawb yn tybio bod y frwydr deledu wedi ei cholli wedi holl ymdrechion ac aberth llaweroedd o bobl tros nifer o flynyddoedd. Ac yn prysur agoshau fel arswyd roedd Hydref 6, 1980, y dyddiad y cyhoeddodd Gwynfor Evans y byddai'n cychwyn ar ei ympryd hyd farw pe bae raid.

Yn ystod llai na blwyddyn mae'n anhygoel beth sydd wedi digwydd. Fe lwyddodd y tri gŵr doeth - Yr Arglwydd Cledwyn, Syr Goronwy Daniel ac Archesgob Cymru - a aeth ar gais Llys yr Eisteddfod at yr Ysgrifennydd Cartref i'w berswadio bod yn rhaid i'r Llywodraeth ddychwelyd at eu haddewid gwreiddiol o'r Bedwaredd Sianel fel cartref i wasanaeth estynedig o raglenni Cymraeg. Cyn diwedd y flwyddyn roedd y Mesur Darlledu yn ddeddf, yn rhoi i ni fwy nac a ofynnon amdano, sef Sianel ac Awdurdod Teledu Cymraeg cwbl annibynnol i'w rhedeg.

Cyfarfu Awdurdod Sianel 4 Cymru am y tro cyntaf yng Ngregynog ddiwedd Ionawr ac roedden nhw wedi fy mhenodi ac roeddwn yn fy swydd ddechrau Ebrill. Teg nodi mai'r aelod cyntaf o'r staff oedd Mair Owen, Rhiwbeina, a fu'n dŵr cadarn o nerth a synnwyr cyffredin i S4C fel ag y bu yn y gorffennol i gyrff fel Mudiad Ysgolion Meithrin. Erbyn dechrau Mehefin roedd Euryn Ogwen, Y Barri, yn dechrau ar ei waith fel Golygydd Rhaglenni. Yng Ngorffennaf daeth Mike Tucker, a anwyd ac a fagwyd yng Nghaerdydd ac a ddysgodd Gymraeg yn gwbl rugl dan Elvet Thomas yn Ysgol Uwchradd Cathays o'i swydd fel Dirprwy Drysorydd De Morgannwg i fod yn Rheolwr Cyllid S4C.

Ym Medi bydd Chris Grace, Pennaeth Cynllunio Rhaglenni HTV, yn dod atom fel Pennaeth Cynllunio a Chyflwyno ond bydd ei wraig, Wendy Williams, cynhyrchydd gyda HTV, yn sicrhau nad yw'r teulu Grace yn torri eu cysylltiad yn llwyr â'r Cwmni. Gyda Ellen Davies o Aberystwyth wedi dod atom o Gyngor y Celfyddydau a Siân Eleri Edwards o Faenclochog yn ymuno â ni fel Clerc Cyllid ar ôl y gwyliau, bydd y teulu bach brwd wedi tyfu i 7 ar y ffordd i'r 44 a fydd yn aelodau o'r tim erbyn y bydd y gwasanaeth yn mynd ar yr awyr yn Nhachwedd 1982.

Yn wyrthiol o sydyn fe lwyddwyd i gytuno gyda'r Awdurdod Darlledu Annibynnol ar y swm o £20 miliwn i redeg S4C hyd ddiwedd Mawrth 1983 a mae'r deg awr o raglenni a ddaw o'r BBC yn ychwanegol at hyn. Pwy yn ei iawn bwyll fyddai wedi breuddwydio yng nghanol y diflastod a'r anobaith flwyddyn yn ôl y byddai'r math yma o arian ar gael i lansio gwasanaeth teledu Cymraeg. Ar ben hynny rydym wedi sicrhau ein pencadlys yng Nghlos Sophia a symud i mewn iddo oddiar canol Gorffennaf a mawr ein diolch i Eirion Lewis a'i staff am gynhesrwydd eu croeso a haelioni eu cymwynasgarwch i Mair, Euryn a minnau yn swyddfa'r IBA yng Nghaerdydd yn nydd y pethau bychain. Mae'r adeilad, a adeiladwyd ar gyfer y Cyd-Bwyllgor Addysg Cymreig ym 1961 yn ddelfrydol ar gyfer ein anghenion. Yno y byddwn fel staff yn byw, symud ac yn bod ac yno hefyd y bydd ein stiwdio fechan i gyflwyno'r rhaglenni a ddaw i ni o'r BBC, HTV a'r Cynhyrchwyr Annibynnol.

Dyma'r datblygiad mwyaf syfrdanol o sydyn ac addawol yn hanes y Gymraeg ers blynyddoedd lawer iawn. Mae'r arfau i adeiladu'r gwasanaeth yn ein dwylo yn awr a rydym ni yn Awdurdod a staff wedi cydio yn y cyfle yn frwd a hyderus er darparu'r gwasanaeth y mae'r Ddeddf, ac, yn fwy pwysig, pobl Cymru yn ei ddisgwyl gennym. Wrth feddwl am y wyrth a ddigwyddodd mewn cyn lleied o amser ni allaf lai na theimlo bod arwyddair ein prifddinas yn arbennig o addas y dyddiau hyn - "Deffro, mae'n ddydd."


__Cyfeiriad y Pencadlys:__

Sianel 4 Cymru,
Clos Sophia,
Caerdydd.
CF1 9XY

Tel: 43421


## EMYR DANIEL YN YMUNO Â HTV CYMRU

Yn unol ar addewid i gynhyrchu gwasanaeth materion cyfoes llawn ar gyfer Sianel Pedwar Cymru y mae HTV Cymru yn falch o gyhoeddi fod Mr. Emyr Daniel i ymuno â'i staff materion cyfoes fel Cynhyrchydd/Cyflwynydd

Dechreuodd Mr. Daniel ei yrfa ddarlledu gyda HTV Cymru ar y staff Report Wales ac yn ddiweddarach fel Golygydd/Cyflwynydd y rhaglen materion cyfoes wythnosol 'Outlook'.


Er 1974 y mae wedi bod yn gweithio dan gyntundeb fel cyflwynydd gyda BBC Cymru, yn gweithio ar radio a theledu.

Pan gyflwynir gwasanaeth newydd y flwyddyn nesaf, bydd Mr. Daniel yn rhannu ei amser rhwng cyflwyno o'r stiwdio ac adroddiadau ar ffilm, yn ogystal â gweithio ar raglenni materion cyfoes yn Saesneg.

Dywedodd Mr. Huw Davies, Cyfarwyddwr Rhaglenni HTV Cymru, "Yr wyf yn bersonol yn llawen iawn o groesawu Emyr Daniel yn ol i HTV lle y dechreuodd ei yrfa deledu yn ein hadran materion cyfoes. Y mae ei benodiad yn cadarnhau yr addewid yr ydym wedi ei wneud i wneud popeth a fedrwn er llwyddiant S4C. Y mae'n dechrau cyfnod cyffrous mewn ehangu yn y ddwy iaith yn arwain at Hydref 1982."

Dywedodd Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes, Mr. Geraint Talfan Davies: "Bydd gofynion gwasanaeth S4C yn gofyn i ni ystyried dimensiwn rhyngwladol yn ein rhaglenni, ac mae hyn yn sialens cyffrous i'n tim o newyddiadurwyr. Yr ydym yn hapus y bydd y tim hwn yn cael ei gryfhau ymhellach gyda dychweliad Emyr Daniel i HTV ar gyfer y gwaith pwysig hwn. Bydd ei dalentau arbennig a'i brofiad o gymorth mawr i ni."

Dywedodd Emyr Daniel: "Yn y cyfnod cyffrous hwn ym myd darlledu yng Nghymru yr wyf yn llawen iawn i fod yn ail ymuno ac HTV a hwythau wedi ymdynghedu i roddi gwasanaeth materion cyfoes llawn i S4C."



# O'R STEDDFOD

ARGRAFFIADAU UN O'R TO IFANC
O EISTEDDFOD MACHYNLLETH.

Cês yn llawn o ddillad glaw a welis, a dyma gyrraedd Machynlleth ar y dydd Sadwrn, a'r haul yn tywynnu'n braf. Roedd dydd Sadwrn cyntaf y Steddfod ar y maes carafannau yn ddistaw a gwag, a Sian, Elen a fi yn eistedd yn llonydd yn y garafan yn disgwyl i ryw wyneb cyfarwydd basio neu rywbeth i ddigwydd. Yna ar ddiwedd y pnawn dyma benderfynu mynd allan i chwilio am dipyn o fwyd a throi ein trwynau i gyfeiriad Machynlleth. Ni wyddai'r un ohonom ei fod oddeutu chwe milltir i ffwrdd. Cyn hir fe ddechreuom fodio a chael lifft reit i ganol Machynlleth yn gwbwl ddidrafferth. Buom yn crwydro am dipyn er mwyn cynefino â'n cartref am yr wythnos, a dod ar draws nifer o hen ffrindiau gwersyll a Steddfodau. Noson ddifyr tu hwnt. Cawsom yr un lwc ar y ffordd yn ôl - lifft i garreg drws y garafan.

Drannoeth fe ddeffrom yn ara i sŵn y gwasanaeth o bafiliwn y Steddfod, ac yna codi tua hanner dydd. Aethom allan i dorheulo am dipyn gan fod y tywydd mor fendigedig, ac mor anghyffredin i wythnos y Steddfod. Roedd y cae yn dechrau llenwi a gorymdaith gyson o garafannau yn cyrraedd y cae.

Cawsom ginio ffyrst clas am tua un o'r gloch. Cyw oer a salad, ac yna salad ffrwythau'n cynnwys afal ac orennau'n unig! Ar ôl clirio gweddillion y pryd rhaid oedd sgrealu wrth weld Dad, Mam a Nain yn croesi'r cae. Dyma fynd ati i dacluso'n sydyn, lluchio cynnwys y blwch-llwch ac eistedd gan dreio edrych yn ddiffwdan a chroesawgar. Ar ôl sgwrs a phaned o goffi gadawsant y garafan gan addo ein gadael yn llonydd ac i beidio dychwelyd tan ddiwedd yr wythnos!

Y noson honno aethom efo giang o ffrindiau i Fachynlleth a mynd i'r Llew Gwyn i glywed Heather Jones a'r Hwntws. Cawsom noson wrth ein bodd a'r stafell yn llawn o Gymry yn canu a churo dwylo. Y pryd hwnnw y dechreuais deimlo'r awyrgylch eisteddfodol.

Ar y dydd Llun aethon i grwydro maes y Steddfod a dod o hyd i babell 'Miri Maldwyn'. I mi dyma un o arbrofion mwyaf llwyddiannus y Steddfod. O'r diwedd dyma brawf o ymddiriedaeth y Steddfod yn eu hieuenctid, ar ôl dechrau teimlo mai rhyw achlysur i'r canol oed oedd yr Eisteddfod bellach, ac mai'r unig le i bobol ifanc oedd crwydro tafarndai'r dre. A dyma ddod at bwynt arall - llwyddiant ysgubol Twrw Tanllyd eleni. Bûm yn amau a fyddai bar yn y Twrw Tanllyd yn syniad da, yn enwedig ar ôl gweld stâd rhai yn Nyffryn Lliw a Chaernarfon. Rwy'n falch o gael dweud, drylliwyd f'amheuon. Fe drefnwyd T.T. - anffodus - nid T.T. T.J. ydwi'n feddwl - fe drefnwyd Twrw Tanllyd yn hynod effeithiol gyda'r bar yng nghefn y babell a doedd dim modd mynd ag unrhyw ddiod, gwydyr neu gan, i fewn i'r babell fawr. Erbyn unarddeg, wedi i'r bar gau, roedd pawb yn y babell yn mwynhau safon uchel y gwahanol grwpiau. Lol oedd damcanion rhai mai canolfan i gyffuriau a meddwi oedd Twrw Tanllyd. Rwy'n siwr fod T.T. eleni yn lle llawer mwy parchus na rhai o westai Machynlleth, Aberystwyth neu Dinas Mawddwy.

Ac felly y bu - bodio o un lle i'r llall ac ar yr un pryd cael cyfle i sgwrsio a rhai o hen gymeriadau'r ardal. Dirywiodd y prydau bwyd yn y garafan yn ystod yr wythnos i rywbeth tebyg i bot nŵdl, neu baced o grisps. Diflanodd taclusrwydd y garafan gyda Ieuan, Stifyn, Dylan a Dyfed yn galw bob bore am frecwast. Ninnau'n gwneud 'hot dogs' neu fêcd bîns iddynt ar yr amod y byddant yn nôl dŵr o'r tap ym mhendraw'r cae, a gwagio'r bwced o'r lle chwech!

Gweithiodd pethau allan yn gampus, ac yn wir gallaf ddweud mai'r hon oedd y Steddfod hapusaf y bum ynddi erioed.

*****************************************************

## GŴYL CERDD DANT CYMRU

NEUADD Y DDINAS

CAERDYDD

DYDD SADWRN, 7 TACHWEDD

*****************************************************

## YSGOLORIAETH

Bob blwyddyn cynigir dwy ysgoloriaeth i ddysgwyr yr iaith yn Ysgolion Uwchradd y ddinas i fynd i'r Eisteddfod.

Eleni dewiswyd dau fachgen o Ysgol Gyfun Glynderw, Trelai, i fynd i Eisteddfod Machynlleth sef Isaac Maynard ac Edward Ball y ddau yn ddisgyblion i Mrs. Falmai Griffiths.

Dechreuodd y ddau ddysgu Cymraeg yn Ysgol Gynradd Cwrt yr Ala dan John Blake sy bellach yn brifathro Ysgol Dinas Mawddwy. Ef hefyd oedd Cadeirydd Pwyllgor y Dysgwyr yn yr Eisteddfod ac wrth gwrs roedd e wrth ei fodd yn croesawu Isaac ac Edward i babell y Dysgwyr ar y Maes.

Mae Isaac ac Edward newydd sefyll Safon O a gobaith Edward ydy astudio Gwyddoniaeth yn y Chweched Dosbarth ond mae Isaac yn gobeithio astudio Cymraeg at Safon A.

Llongyfarchiadau i'r ddau ar ennill yr ysgoloriaethau a mawr ddiolch i Gymdeithas y Cymrodorion yng Nghaerdydd am eu haelioni a'u cefnogaeth ymarferol i'r dysgwyr ifanc.

## SWYDD NEWYDD

Yn ystod Awst eleni, ymunodd Miss Cathryn Gwynn ag Adran Farchnata Bwrdd Croeso Cymru. Hynny ar ôl cael gyrfa ddisglair a gradd o Goleg Prifysgol Caergrawnt.

Daw Miss Gwynn o dref Caerfyrddin ond bydd dinasyddion yn ei chofio fel merch T. Gwynn a Mairwen Gwynn (Jones) a fu unwaith yn byw yn Rhiwbeina, dau a ymdrechodd yn galed i gynnal bywyd Cymraeg y ddinas.

Pob lwc i Cathryn yn ei swydd gyntaf. Roedd ei mam yn aelod o dîm cyntaf Y Dinesydd a'i chyfraniadau'n werthfawr. Byddai'r pwyllgor presennol yn croesawu rhywun sydd a phrofiad mewn marchnata i'w plith.

# LLWYDDIANT

Llongyfarchiadau i'r canlynol o Gaerdydd a'r Cylch ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Maldwyn:

Y Brif Gystadleuaeth Gorawl:
1af: Côr Godre'r Garth.

Côr Cerdd Dant:
1af: Côr Merched y Garth
2il: Côr Tannau Taf

Prif Adroddiad:
2il: Hannah Roberts

Parti Madrigal:
1af: Parti'r Aelwyd

Dawns Unigol i Ferched:
1af: Einir Wyn

Cyfrol ar gyfer dysgwyr:
Mrs. Ann M. Jones
Mr. Ivor Owen.

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar gael eu hethol ar Gyngor yr Eisteddfod :

Geraint Talfan Davies
Shan Emlyn
Alun Guy
Gwilym Humphreys
Euryn Ogwen



CÔR GODRE'R GARTH - Buddugwyr y Prif Gystadleuaeth Gorawl yn Eisteddfod Maldwyn.


Da gan Philip Morgan a'i Fab Cyf., allu dweud bod gwin bord 'Calon Lân' nawr ar eu rhestr. Cyfuniad Ewropëaidd yw hwn, wedi'i botelu yn yr Almaen ac o naws tebyg i mosel. Prif bwrpas cyflwyno'r gwin hwn wedi'i labelu'n gyfangwbl yn Gymraeg yw rhoi boddhad i'r bobl hynny y mae hi'n iaith gyntaf iddynt neu sy'n gyfarwydd â hi. Pris manwerth potelaid 70 centilitren yw tua £1.99.
Gellir prynu CALON LÂN mewn siopau gwin eraill hefyd yn ardal Caerdydd.

CALON LÂN®

CYFUNIAD O WINOEDD O WLEDYDD Y GYMUNED EWROPEAIDD

Wedi'i Botelu Gan

Richard Trimborn, GmbH, Bad Kreuznach, YR ALMAEN

PHILIP MORGAN A'I FAB, CAERDYDD 70 cl e

**Philip Morgan a'i Fab Cyf., (sef. 1929)**

Prif Farsiandiwr Gwin Caerdydd

126, Wyndham Crescent, Caerdydd, Teleffon 31570

# COLOFN SHÂN

Mis prysur a hapus iawn fu mis Awst eleni - ac fe ddechreuodd yn ogoneddus efo'r Eisteddfod Genedlaethol hapusa y bûm i ynddi erioed. Llongyfarchiadau calonog i holl weithwyr brwd Machynlleth a'i chyffiniau a fu wrthi'n brysur yn paratoi ar ein cyfer. Syniad ardderchog gafodd Clwb Rotari Machynlleth hefyd yn cynnig gwasanaeth yn cludo'r beirniaid o le i le gydol yr wythnos. Fe ysgafnhaodd hyn gryn dipyn ar waith yr wythnos.

Un o uchafbwyntiau'r wythnos i mi, fel y buasai darllenwyr Y Dinesydd yn disgwyl i mi sôn amdano oedd clywed llais Elwy Thomas yn fyw a chlir yn annerch y dorf o Buenos Aires yn ystod Seremoni Cymru a'r Byd. Ychydig wyddai am hyn ymlaen llaw, a gellid teimlo gwefr y gynulleidfa wrth iddynt wrando ar Elwy - na welodd dir Cymru erioed. Siaradai mewn Cymraeg hyfryd o rugl, a gwn innau pa mor fyw yw ei ddiddordeb yn yr 'Hen Wlad' a pha mor eang y mae'n darllen ein llenyddiaeth. Llongyfarchiadau i Emyr Jenkins am fentro er waetha'r holl anhawsterau technegol allasai fod wedi difetha'r syniad gwych yma. Gobeithio y bydd cyfarchiad fel hyn yn rhan o'r Seremoni yn flynyddol.

Braf hefyd oedd gweld y Blewyn Glas ar werth bob dydd a darllen bod pobol Abertawe yn gobeithio cyflawni'r un orchest y flwyddyn nesa.

Peth arall sy' wedi bod yn braf yn ystod mis Awst, ydy bod pawb adra. Er y llanast, y cwcio a'r mynydd o olchi, mae'n rhaid cyfaddef 'i bod hi wedi bod yn braf bod yn deulu cyflawn unwaith eto. Yn goron ar y cyfan disgynodd amryw gawodydd o Wladfawyr yma - rhai am bryd a sgwrs, eraill yn aros noson neu ddwy.

Rwyf yn sgwennu'r llith bach yma jest cyn cychwyn am bythefnos o wyliau yn yr Eidal, a chan ein bod yn mynd efo ffrindiau clos, mi wn y bydd y gymdeithas yno eto yn felys iawn.

Dyma fi'n mynd yn ôl i'r Steddfod eto. Onid yda ni eisteddfodwyr yn lwcus - cael bod efo'n gilydd am wsnos i ddechra, cwmnia a chymdeithasu. O fewn y maes ond oes 'na rywbeth at ddant pawb - pobol y Babell Lên yn ddiddig, pobol y pafiliwn yn cael amrywiaeth anhygoel, yr ifanc yn brolio 'Miri Maldwyn' a Thwrw Tanllyd, a chrwydriaid y maes wedi cael mesur da o dywydd teg i bererindota o babell i babell.

Yn ystod y cadeirio 'ron i'n meddwl - pa genedl arall a fyddai'n eistedd mewn cwt yn gwrando ar ffermwr o fardd yn traddodi beirniadaeth lenyddol - yn mwynhau'r wledd o wrando ar Dic Jones - nid yn unig yn clorianmu heb bwt o bapur ond yn adrodd talpiau o'r Awdlau ar 'i gof. Roedd hynny hefyd yn wefr i mi.

Er bod yr Eisteddfod wedi bod, a minnau'n ôl efo dyletswyddau Coed y Pry - mae'r wefr a'r pleser yn dal yn fyw iawn yn fy nghof. Lle gai aros yn Abertawe flwyddyn nesa tybed?

---

# CROESO'N ÔL

A ninnau newydd gael cwmniaeth difyr, naturiol Huw Llywelyn Davies i'n tywys yn hwyliog bob prynhawn a nos yn ystod wythnos yr Eisteddfod, mae'n hyfryd clywed bod ei dad yn dod nôl i ymgartrefu'n yr hen dref yma hefyd. Mae Huw, Carol a Rhodri yn bwriadu symud o Bentyrch i Radur, i fyw nepell oddi wrth ei gyd-ddarlledwr, John Evans, ac mae Eic Davies yn mynd i symud yno hefyd.

Bu Eic Davies yn un o gymeriadau hoff y dre yma cyn y Rhyfel a chyn i Awdurdod Addysg Caerdydd fod mor ffôl a diswyddo'r athrawon hynny a oedd yn beiddio bod yn wrthwynebwyr cydwybodol. Collodd y ddinas lawer o'i hathrawon mwyaf disglair ac roedd Eic Davies yn un ohonyn nhw. Fe aeth i Ysgol Pontardawe yn Bennaeth yr Adran Gymraeg ac yno cafodd ysbrydoli llawer iawn o fechgyn y Cwm i ymhyfrydu ym mhethau gorau'r genedl.

Ysgrifennodd nifer o ddramau llawn hiwmor i blant dan 15, ac mae pawb sydd â diddordeb mewn chwaraeon yn ddyledus iawn i Eic Davies am ei waith ar y cyd yn dyfeisio termau'r gêm rygbi yn Gymraeg.

Rŷn ni ddinasyddion yn falch iawn i wybod ei fod yn nôl gyda ni. Mae'i glywed e'n sôn am ddyddiau Tŷ'r Cymry, storiau dyddiau cynnar UCAC, a'r cwmniau drama di-ri cyn y Rhyfel, yn ddogfen hanesyddol ar ben ei hunan.

COLLI BARDD Y TIR PELL

Ddiwedd Gorffennaf bu farw'r bardd a'r llenor R. Bryn Williams, wythnos cyn yr Eisteddfod. Llesg a bregus fu iechyd Bryn ers rhai blynyddoedd, ond roedd wedi edrych ymlaen at un o uchafbwyntiau ei fywyd sef traddodi beirniadaeth yr Awdl ym Machynlleth ar y dydd Iau.

Yn sydyn y daeth y diwedd a derbyniais lythyr oddi wrtho ddiwrnod cyn ei farw yn ymddiheuro na fyddai yng nghyfarfod blynyddol Cymdeithas Cymry Ariannin ac yn hwnnw fe ddywed "......yr wyf i fod yn y Babell Lên ar y bore Gwener i drafod cystadleuaeth yr Awdlau am y gadair, un o freintiau fy mywyd...."

Teimlais erioed mai dyn dwy wlad oedd Bryn ac roedd 'na aniddigrwydd yn ei bersonoliaeth. Câi hi'n anodd i ymgodymu â'r ddeuoliaeth hon. Cymru a roddodd iddo addysg a chyfle i ddatblygu'i ddawn, ond yn sicir Y Wladfa oedd ei ysbrydiaeth. Iddi hi y canodd amla yn ei farddoniaeth ac yn ei nofelau. Dengys ei ddrama "Cariad Creulon" y tyndra sydd i'w gael wrth geisio bod yn deyrngar i ddwy wlad. Un o'i gymwynasau penna i ni yma ac i'r brodyr "draw" oedd cofnodi hanes y fenter gyffrous yn ei lyfr "Y Wladfa".

Chwith meddwl bod y gŵr tawel yma a fu'n gymaint o bont rhwng Cymru a'r Wladfa wedi ein gadael. Cydymdeimlwn a Nan Griffiths ei ferch ac a'r teulu i gyd.

O'r tir pell i'r tir pellaf -
y gwyrodd
Tua'r gorwel olaf;
A myned i'r paith eithaf
Yn ôl i dragwyddol haf.

S.E.

*******************************

CYLCH CINIO MERCHED CAERDYDD

MEDI 10fed.

Cyfarfod erbyn 8.00 p.m. yn nhŷ bwyta THATCHERS, Llanishen. Gwestai, Dr. Jane Jones, Ysbyty Dewi Sant, Caerdydd. Cysylltwch a'r Ysgrifenyddesau ar naill ai Caerdydd 561776 neu 561553.

Croeso i ymuno i unrhyw Gymraes yn y ddinas.

*******************************

# ARLWY'R SHERMAN

Ŵyr Y Dinesydd ddim a yw Cyfeillion y Theatr Gymraeg yn bodoli yng Nghaerdydd o hyd. Byddai angen croen eliffant i fod yn aelod o'r pwyllgor ar ôl yr ymateb a fu i rai o'r gweithgareddau llynedd.

Eto, mae'r Sherman fel pe bai'n mynd o nerth i nerth.

Y mae'n debyg y bydd y cynhyrchiad cyntaf wedi bod cyn i rai ohonoch chi ddarllen y nodiadau hyn.

Y dyddiad? Medi 3 - 5. LLYFFANTOD, drama gan y diweddar Huw Lloyd Edwards. Cwmni Ieuenctid Cymru sy'n perfformio. Ar ôl darllen un llith yn Y Dinesydd sy'n bur feirniadol o'r ifanc, carwn bwysleisio mai pobl ifanc sy'n gyfrifol am hon. Mae'n ddrama werth ei gweld.

Peidiwch â chael braw os y clywch chi ei bod yn seiliedig ar waith gan Aristoffanes. Pe deuai Aristoffanes i'r Sherman yn ystod un o'r nosweithiau hyn, fyddai e byth yn adnabod ei ddrama. Mae'n gyfoes ei hapêl, gyda hiwmor craff yn lefeinio'r neges.

Medi 17 - 19. Rhowch e lawr yn eich dyddiadur. PONT ROBERT gan Gwmni Theatr Cymru.

Mae'r Cwmni hwn wedi bod dan yr ordd yn ddiweddar a ddim heb reswm, chwaith. Mae nifer ohonom sydd wedi dod i'w cefnogi yn Y Sherman drwy'r blynyddoedd wedi gadael sawl perfformiad yn anniddig a siomedig. Eto, cafodd y ddrama hon air da ar ôl y perfformiadau ym Machynlleth. Ffars ydy hi a pha well tonic na dwyawr neu dair o chwerthin ar ddechrau'r gaeaf?

Hydref 11. Yn ôl at yr ifanc a myfyrwyr drama enwog Coleg Aberystwyth a rhai sydd wedi gadael erbyn hyn.

Ceir dau gynhyrchiad ganddyn nhw. Aiff un, RHIANNON, a ni'n ôl i gyfnod y Mabinogi ond gŵyr y rhai sy'n gyfarwydd â'r Mabinogion, y gellir cael Rhiannon druan i wneud unrhyw beth! Mae'r cynhyrchiad yma'n addas i blant yng ngofal rhieni, ond fe'i luniwyd yn bennaf ar gyfer oedolion.

MAE RHYWUN YN CURO yw teitl yr ail gynhyrchiad sy'n dechrau am chwarter i ddeg. Dwy actores, Bethan Jones a Siwan Jones. Y ddinas biau Siwan a daw Bethan o Benllyn. Nhw sydd wedi gosod y gwaith hwn wrth ei gilydd a haedda bob cefnogaeth.

Ni, mewn ffordd, biau'r dyn dwad i'r ddinas sy'n awdur y ddrama a welir. Y dyddiad, Tachwedd yr 8fed. Y ddrama, SYRCAS. Yr awdur, Bernard Evans sydd wedi hen ennill ei blwyf fel dramodydd. Mae'r ddrama hon wedi ennill mewn cystadleuaeth bwysig ac o dan gyfarwyddyd David Lyn, dylai fod yn ddrama i'w chofio.

Dydy'r Sherman ddim wedi anghofio am y plant. Ar Dachwedd y 12fed, mae gan GWMNI CYFRIF TRI sioe i blant, a hynny am hanner awr wedi un yn y prynhawn. Bydd yn para am tuag awr o amser.

Gobeithio y gellwch roi Rhagfyr 4 a 5 yn hyderus yn eich dyddiadur hefyd. Ar y ddwy noson honno, bydd Cwmni Drama'r Brifddinas yn perfformio BORE FORY DDAW, trosiad o ddrama o'r Unol Daleithiau. Mae'r cwmni hwn yn dal i chwilio am enw. Os llwyddwch chi i feddwl am enw addas iddo, gellwch gael dau docyn am ddim ar gyfer y perfformiad.

I gloi, CABARET NADOLIG gyda Hywel Gwynfryn a Sue Roderick. Ionawr yr ail yw'r dyddiad. Mae Dilwyn Jones hefyd yn un o'r tîm fydd yn eich adlonni.

COFIWCH DDOD !

---

CWMNI DRAMA I'R BRIFDDINAS

Bellach sefydlwyd cwmni drama amatur yng Nghaerdydd, fydd yn perfformio am y tro cyntaf ar nos Wener, 4 Rhagfyr a nos Sadwrn, 5 Rhagfyr, yn Theatr y Sherman.

Y ddrama fydd

BORE FORY DDAW - cyfieithiad cynhyrchydd y ddrama, Alun Ffred Jones, o ddrama Brian Freel PHILADELPHIA HERE I COME.

Mae rheolwr Theatr y Sherman, Geoffrey Axworthy, wedi addo pob cefnogaeth i'r cwmni a disgwylir perfformiadau o safon uchel.

Enw'r Cwmni ar hyn o bryd yw CWMNI DRAMA DIENW CAERDYDD.

Hoffai'r Cwmni wahodd darllenwyr Y Dinesydd i feddwl am enw gyda ychydig mwy o sbonc ynddo.

Bydd dyfeisydd yr enw gorau yn cael dau docyn i berfformiad cynta'r Cwmni yn wobr.

Anfonwch eich awgrymiadau ar frys at :

Eleanor Wyn,
13 St. John's Crescent,
Treganna,
Caerdydd.

Cofiwch fod croeso i bawb sydd a diddordeb ymuno â'r cwmni.

---

GRŴP Y DRAMODWYR

Rhwng mis Tachwedd eleni a mis Mai 1982 bydd Yr Academi Gymreig, cymdeithas awduron Cymru, yn cynnal cyfres o weithdai i ddramodwyr nad oes ganddynt lawer o gysylltiad â'r theatr ond sy'n awyddus i ddechrau ysgrifennu i'r cyfrwng hwnnw. Nod y gweithdai hyn yw cyflwyno awduron Cymru i theatrau Cymru.

Cynhelir y gweithdai yn adeiladau nifer o wahanol theatrau ledled Cymru a gwahoddir nifer o ddarlithwyr i siarad a darlithio ar eu hagwedd hwy ar y theatr.

Joan Mills, cyn-Gyfarwyddwr gyda'r Royal Court, fydd â gofal y cynllun ar ran yr Academi.

Gall unrhyw un wneud cais am le yn y grŵp ond bydd disgwyl i bawb gyflwyno esiamplau o'u gwaith, a chan nad oes ond lle i ddeg ar y cwrs bydd yno gystadlu brwd. Dewisir yr ymgeiswyr llwyddiannus gan banel o feirniaid ar sail eu gallu i elwa ar y cynllun newydd cyffrous hwn.

Trefnwyd y cynllun hwn gyda chymorth hael Adran Ddrama Cyngor Celfyddydau Cymru.

Am fanylion pellach cysylltwch â Sue Harries, Yr Academi Gymreig, Llawr 4, Adeilad Cory, Heol Bute, Caerdydd. CF1 6QP.

---

CWMNI CYFRI TRI

Cafodd Cwmni Cyfri Tri groeso mawr gan drigolion Llandaf a'i ffrindiau yn gerddi Llys Llandaf yng nghanol gwyliau'r haf. Roedd y tywydd yn grasboeth a'r cefndir yn wych i arddangos gwaith celfydd a lliwgar iawn ar ran tri actor, un ohonynt yn dod o Benarth, Miss Christine Watkins, a ddysgodd Gymraeg yn Adran Gymraeg Alwyn Prosser. Ysgrifennon nhw a chyflwynon nhw gyflwyniad oedd yn addas iawn i blant o bob oedran a'r rhieni wrth eu bodd yn eu gweld hwy yn cyflwyno stori'r Clown Oren.

Mae'n amlwg bod hwn yn arbrawf llwyddiannus iawn ar ran Mudiad Ysgolion Meithrin, - yn arbrawf y byddai'n werth ei wneud dro ar ôl tro yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau i'r rhai a drefnodd. Fe aeth pawb oddi yno ar ben eu byd.

# GWEITHGARWCH AIL IAITH

Lansiwyd AIL lyfr Miss Ann Rosser, Coleg Cyncoed, Caerdydd, pan gynhaliwyd prynhawn o ddysgu gwefreiddiol yn seiliedig ar ei llyfr RHIGWM, STORI, CÂN A MWY.

Mae Caerdydd ers y dyddiau cyn yr Ail Ryfel Byd wedi bod yn ffodus iawn i gael athrawon ail-iaith disglair iawn oddi fewn i'w chyffiniau ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng ngwybodaeth sylfaenol y rhan fwyaf o drigolion Caerdydd yn yr iaith.

Rwyn hollol sicr er hynny na welwyd dysgu crefftus gwell ac ymateb mwy brwd erioed i wersi ail-iaith mewn unrhyw gwrs ag a welwyd yn y cwrs seiliedig ar ei llyfr hi ac a hyrwyddwyd gan Benni Harris fu'n gysylltiedig â'r llyfr o'r dechrau.

Ffrwyth cyfle a gafod darlithwyr yng Ngholeg Cyncoed yw'r llyfr i fynd i wahanol ysgolion i helpu a chynghori ac i roi hyfforddiant Mae'n amlwg bod Miss Rosser wedi taro ar angen mawr athrawon ac mae'r llyfr yn gyforiog o ddramodigau seiliedig ar ddigwyddiadau yn Hanes Cymru - Dydd Gŵyl Dewi, Harri Morgan, Guto Nyth Brân wedi'u cyplysu â chaneuon ffwrdd a hi cofiadwy i'r plant i ymarfer y cystrawenau a ddysgwyd. Ar yr un pryd mae Miss Rosser wedi gweld angen athrawon Cymru i gael gwasanaethau yn Gymraeg i'r plant yn y bore ac fe geir gwasanaeth diolchgarwch, ewyllys da a charolau hollol addas a bydd y plant wrth eu bodd yn eu canu am eu bod yn eu denu a dramodigau hefyd o'r Beibl.

Yn yr ysgol undydd cawsom glywed plant Ysgol Hywel Dda, Trelai, yn canu rhai o'r emynau hyn ac fe ddaeth Siân Williams, aelod o grŵp Becca, myfyrwraig yn y coleg, i ganu rhai o'r carolau i ddangos eu swyn yn hollol eglur.

Hoffais asbri'r babanod o Ysgol Rhydypennau, plant Miss Box, y Brifathrawes, dysgwraig ei hunan, ond yn y cwrs roeddent dan hyfforddiant Miss Ann Rosser ac yn gwybod popeth bron am ddatblygiad y lindys ac yn enwedig am ei harferion bwyta ac yn ymateb mewn Cymraeg hyfryd.

Roedd perfformiadau'r dramau gan y plant o Ysgol Allensbank ac wedyn o Ysgol Hywel Dda yn arddangos Guto Nyth Bran a Harri Morgan yn hollol wefreiddiol - y plant yn gartrefol yn y Gymraeg ac wrth eu bodd yn parablu. Serch hynny, yr hyn a roddodd y mwynhad eithaf i mi oedd gweld crefft yr athrawon yn Miss Ann Rosser gyda'r plant bach a Mrs. Betty Williams gyda phlant Allensbank a Miss Ann Rogers gyda phlant Hywel Dda, Trelai. Doedd dim rhyfedd bod yr actio mor dda; roedd y plant wedi'u paratoi mor arbennig trwy ddrilio crefftus a sgwrsio cyffredinol a ninnau'n cael gweld yr athrawesau arbennig hyn wrthi.

Roedd y cyfan yn fythgofiadwy i mi. Mae'n amlwg bod plant heddiw fel erioed yn methu peidio ag ymateb i gynllun ysbrydoledig wedi'i gyflwyno iddynt gan athrawon ymroddedig, gweithgar, sy'n gwybod beth yw crefft o fewn dosbarth.

Fel y dywedodd un o fyfyrwyr Miss Ann Rosser "Mae'n dodwy llyfrau ar hyn o bryd. Melys, moes mwy".



Plant Ysgol Hywel Dda, Trelai, yn perfformio drama am Harri Morgan yn y Cwrs yng Ngholeg Cyncoed yn seiliedig ar lyfr Miss Ann Rosser, 'Rhigwm, Stori, Cân a Mwy'.

---

Mae tîm o athrawon y ddinas wrthi ar hyn o bryd yn paratoi deunydd ar gyfer dysgu'r Gymraeg yn ail iaith yn yr ysgolion uwchradd. Ysgrifennydd y tîm yw W.H. Raybould ac ef fu'n bennaf gyfrifol am lywio llyfryn cyntaf y tîm drwy'r wasg. Mae rhagor o lyfrynnau i ddod. Disgwylir y byddant o gymorth mawr i'r athrawon sy'n ymlafnio i ddysgu'r Gymraeg yn yr ysgolion. Mae Bill Raybould yn Uwchddarlithydd yn Athrofa Addysg Uwch De Morgannwg.

---

AELWYD NEWYDD

Mae Mr. a Mrs. W. H. Raybould, Hanna a Tom wedi newid aelwyd yn ddiweddar. Roedden nhw'n byw yn Heathway, ond maen nhw wedi symud i Heol Wingfield, yr Eglwysnewydd. Mae'r rhan yma o'r ddinas yn gyfleus i Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd.

---

Atebion 'Beth yw?' o dudalen 12

1. pysgodyn; 2. gwynt;
3. pyped; 4. bwrdd-du;
5. haul

# O'R WASG



Ann Rosser

Ann Rosser: TELYN A THELYNOR: HANES Y DELYN YNG NGHYMRU, 1700-1900

Cyhoeddwyd gan Amgueddfa Werin Cymru, Caerdydd, 1981, Pris £7.50.

........

Hyfrydwch yw cael tynnu sylw darllenwyr Y Dinesydd at y gyfrol uchod gan un o Gymry cleniaf y brifddinas. Llongyfarchiadau calonnog iawn i Ann Rosser ar ei champwaith. Ffrwyth ei hymchwil am radd M.A. Prifysgol Cymru y llynedd yw'r gyfrol hon a golygodd hyn oll flynyddoedd o lafur iddi mewn llyfrgelloedd, archifdai ac amgueddfeydd ledled y wlad.

Rhennir cynnwys y gyfrol ym bum adran - 1. Y Telynau; 2. Swyddogaeth a Delwedd; 3. Nawdd; 4. Catalogau; 5. Ffynonellau Ymchwil. Yn ychwanegol, ceir nifer dda o luniau diddorol o wahanol delynau, telynorion, cynlluniau a mesuriadau telynau (gwaith manwl ac arbenigol gan y Dr. Eckhart Roese o Gyncoed) a mapiau o Gymru yn dangos prif fannau geni a gwaith telynorion a gwneuthurwyr yr offeryn. Penderfynodd Miss Rosser gyfyngu ei hastudiaethau i'r ddwy ganrif rhwng 1700 a 1900. Artiffisial ond hwylus, serch hynny, yw parselu taclus fel hyn bob amser, ond dewisodd yr awdures ei chyfnod 'am ei fod (yn ei geiriau ei hun) yn bras gyfateb i dymor poblogrwydd yr offeryn 'traddodiadol' (sef y delyn deir-rhes) a fu amlycaf yn ein gwlad wedi colli'r hen gyfundrefn farddol ffurfiol'. Ni cheisiodd Ann Rosser gyflwyno gwybodaeth am ddatblygiad cerddoriaeth y delyn fel y cyfryw, ond llwyddodd yn hytrach i olrhain datblygiad yr offeryn a'i lle yn y gymdeithas Gymreig yn y cyfnod dan sylw. Trefnwyd y ffeithiau yn arbennig o hwylus i'r darllenydd ac argraffwyd y gyfrol yn grefftus gan D. Brown a'i Feibion, Cyf., Penybont ar Ogwr. Mae'r siaced lwch a gynlluniwyd gan D.I. Arwel Hughes, Sain Ffagan, hefyd yn arbennig o drawiadol a deniadol.

Llongyfarchiadau diffuant, felly, i Ann Rosser ar ei chyfrol odidog, ac i'r Amgueddfa Werin hithau am ei chyhoeddi. Dyma gyfrol sy'n werth ei phrynu a'i darllen. Fe ddylai copi ohoni hefyd fod ymhob llyfrgell ysgol a choleg yng Nghymru.

---

CWYSAU

gan Ffransis G. Payne

Pris: Clawr caled £3.75
Clawr meddal £2.75

Yng Ngheintun yn swydd Henffordd, prin ddwy filltir dros y ffin o'r hen sir Faesyfed, y ganed yr awdur ym 1900. Pan oedd yn ddyn ifanc bu'n gweithio ar fferm am rai blynyddoedd. Graddiodd yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, ac ennill gradd M.A. Prifysgol Cymru.

Ym 1931, fe'i penodwyd yn guradur Amgueddfa Cymdeithas Hynafiaethol Sir Gaerfyrddin, cyn symud ym 1934 i swydd catalogydd Cymraeg yn llyfrgell Coleg y Brifysgol, Abertawe. Ym 1936, fe'i penodwyd ar staff Adran Diwylliant Gwerin yr Amgueddfa Genedlaethol gan symud i'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan pan y'i sefydlwyd ym 1947. Ymddeolodd o'i swydd yno fel Ceidwad Adran Diwylliant Materol ym 1969. Y mae'n Gymrawd o Gymdeithas yr Hynafiaethwyr (Llundain).

Cyhoeddodd nifer o lyfrau ac erthyglau ar fywyd gwerin. Ym 1954 , cyhoeddwyd ei draethawd M.A. o dan y teitl Yr Aradr Gymreig. Cydnabyddir ei ddwy gyfrol Crwydro Maesyfed, y naill a gyhoeddwyd ym 1966 a'r llall ym 1968, ymhlith y goreuon yn y gyfres ar grwydro siroedd Cymru.


Ym 1943 y cyhoeddwyd Chwaryddion Crwydrol ac Ysgrifau Eraill, a adolygwyd gan Mr. Saunders Lewis yn y Faner (Medi 22, 1943) dan y pennawd 'Clasur Newydd i'n Hiaith'. Medd Mr. Lewis: "Dyma lenor yn wir. Fe ddowch chwithau, bob un ohonoch sy'n adnabod blas llenyddiaeth gain, i'r un ddedfryd cyn i chwi orffen trydydd paragraff y llyfr hwn...Canys llenor gwir Gymreig yw Mr. Ffransis Payne, llenor o'r math Cymreicaf a gorau. Un yw ef, fel D.J. Williams a Parry-Williams a W.J. Gruffydd a Kate Roberts, sy ganddo ei "filltir sgwar" ei hunan, ei fro a'i bobl a'i atgofion yn dreftadaeth ac yn gyfoeth...Dwg i'n llenyddiaeth ni wybodaeth a diddordebau amheuthun, ie, a phrofiad amlochrog a helaeth, meddwl annibynnol, cefndir newydd, safbwynt artist o edrych ar fywyd a'i farnu. Y mae ei lyfr i mi fel rhyw hen win aeddfed y bydd dyn yn ei sipian yn araf ac ystyriol, mewn cwmni tawel a choeth, noson o aeaf, megis potelaid o Cockburn 1912."



Ffransis Payne

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau Deddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 16



**Ar Draws**

8. Y dwylo i gyd. (4)
9. Arddodiad defnyddiol o'r De sydd yn ddigon parchus i gael lle yn y Geiriadur Mawr (3)
10. Lle i lygoden ymhob plwyf! (6)
11. Hagrwch yr hallt afler (6)
12. Term gramadegol, a gŵyr hyglod yn nogio yn ffwndrus ar ei ôl (8)
13. Hwn sydd yn Cynan-u gwaith y beirdd (8,2,5)
15. Un llawchwith yn canlyn merch, ond yn methu â chael digon (7)
17. Does dim carn iddo o'i ymarfer (7)
20. Llywelyn ac Owain - ac Edward a Charlo (10,5)
23. Cwpwl yn ymuno â'r math o gwmni sy'n gwneud offer (8)
25. Diloes yw'r genethod, o'i trefnu (6)
26. "Heb le i roi ei ben i lawr" (6)
27. Mae un (o leiaf) ymhob orchestra (3)
28. Gori am ysbaid byr (4)

**I Lawr**

1. Rhoi tro o gylch wyth sy'n mwydo (6)
2. Mae ymyl aml i das yn dangos moesgarwch (8)
3. Hors d'oeuvre dyweder'. (6,1,4,4)
4. Adfywio (7)
5. Rhai fel hyn yw mwyafrif mawr mamoliaid y byd (6-9)
6. Y tîm ar frig y tabl a gurodd ein tîm ni. Mae egin cysur yn hynny (6)
7. Llefain ar ganol gorchwyl ofer (4)
14. Ennaint yr hen offeiriad (3)
16. Tanwydd o fewn tanwydd (3)
18. Mae'n dod i rym i bawb - a hynny ar unwaith (8)
19. Mae'r ferch neu'r llanc yn hen, er gwaetha'u hoed (7)
21. O byddi di yma, tebyg y gweli'r adwaith a geir (6)
22. Derbynneb weithiau, ond yn amlach cyfarwyddyd coginio (6)
24. Ewch yn ôl i chwilio am gi sydd wedi ei ddolurio (4)

**DATRYSIAD CROESAIR RHIF 15**

Ar Draws: 1. CYNULLEIDFAOEDD; 10. ANGYLION; 11. GWEILGI; 12. CARW; 13. SIOMI; 14. UNLLE; 17. NODIANT; 18. DIWEDDEB; 19. AMGENACH; 22. BWYD TUN; 24. THEMA; 25. CIGYDD; 26. OBRY; 29. YMLACIO; 30. COETGAE; 31. PRYNHAWNGWAITH

I Lawr: 2. YMYRRYD; 3. UNIG; 4. ENNAINT; 5. DYGYMOD; 6. ADDEF; 7. ERLYNYDD; 8. DAMCANIAETHWYR; 9. DI-DDERBYN-WYNEB; 15. CADNO; 16. BWTHYN; 20. GAMBLWR; 21. CHWILOTA; 22. BRYNCYN; 23. TEBYGAI; 27. ACEN; 28. BERW

**BETH YW ?**

1. Mae'n oer fel y garreg
Ond nid cragen yw.
Nid yw'n anadlu aer,
Ond mae e'n dal yn fyw.

2. Nid oes neb yn ei weld
Ond weithiau'n ei deimlo;
A nawr ac yn y man
Fe'i clywch yn wylo.

3. Mae'n chwarae a siarad
Yn gas ac yn gariad.
Ond nid yw'n fyw
Beth yw e?

4. Mae'n wyn fel y galchen,
Yn ddu fel y frân,
Ac weithiau mae'n fudur,
Ac weithiau mae'n lân.

5. Mae ganddo wên
Ond dim wyneb na thraed;
Ac weithiau mae'n goch,
Ond nid dyna'i waed.

Sion Tomos Jobbins.

Atebion ar dudalen 10

(o dud 1)

Cloriannodd un y sefyllfa'n dda:

"Mae Ysgolion Cymraeg y ddinas yn troi allan bobol ifanc o safon uchel, rhai sy'n gwneud marc mewn gwahanol gylchoedd. Mae nifer ohonyn nhw'n dal i fyw yng Nghaerdydd. Onid nhw ddylai fod yn rhoi ysgwydd dan y baich erbyn hyn?"

Wrth gwrs, gŵyr pob un o ddarllenwyr Y Dinesydd fod rhai o blant disgleiriaf yr ysgolion yn ymdrechu'n galed i gynnal y bywyd Cymraeg yn y ddinas a diolch amdanynt. Gwaetha'r modd dydyn nhw ddim yn ddigon. Ydych chi'n cofio geiriau'r bardd?

Mae'r eryr yn Eryri, a'i big ar
hanner gwen
Wrth weld yr hen yng Nghymru a
Chymru'n mynd yn he

Dydych chi ddim yn cofio?

Sdim ots.

Ble mae'r holl bobol ifanc yma'
mynd, dwedwch, pa na fyddan nhw
yn Yr Aelwyd?

Wn i ddim. Ydych chi'n cofio teitl y llith yma? Gair i'ch atgoffa chi'n Saesneg:

NEVER FORGET YOUR WELSH !

Argraffwyd gan Fingerprints(TU), Caerdydd.